# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

## 1. Amcanion polisi

***Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?***

Cynnig Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer dysgu pobl ifanc 14-16 oed / blynyddoedd 10 ac 11 o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu gofynion i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig cwricwlwm mwy effeithiol i'r grŵp hwn o ddysgwyr, gyda chyfleoedd dysgu ehangach. Mae'r canllawiau yn statudol i bob ysgol a gynhelir, a bydd angen i ysgolion ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw benderfyniad i beidio â'u dilyn.

Nid yw'r canllawiau yn statudol i Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Fodd bynnag, gellir cymhwyso'r egwyddorion o hyd er mwyn cefnogi dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau.

***Pam mae angen y canllawiau hyn?***

O dan Gwricwlwm 2008, mae dysgu 14-16 yn seiliedig ar gymwysterau ffurfiol. Wrth inni ddiwygio'r dirwedd cymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed yn gyfan gwbl, mae cymwysterau yn rhan bwysig o ddysgu 14-16 o hyd ond, er mwyn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru a chefnogi dysgwyr o ddifrif i ddatblygu tuag at y pedwar diben, mae'n rhaid i gynnig y cwricwlwm i bobl ifanc 14-16 oed ddarparu mwy na chymwysterau'n unig.

Rhaid i benaethiaid sicrhau y caiff cwricwlwm ei gynllunio ar gyfer addysgu a dysgu i bob dysgwr cofrestredig rhwng 3 ac 16 oed. Fodd bynnag, mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 14-16 oed yn wahanol yn rhannol i'r rhai ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 3-14 oed; mae hyn er mwyn ystyried y dewisiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud ynghylch rhai o'r cyrsiau y byddant yn eu dilyn ym mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol. Y gwahaniaeth ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11 (14 i 16 oed) yw er bod yn rhaid sicrhau dysgu ac addysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), nid yw hyn yn golygu bod angen dysgu ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen i bob maes fod yn rhan o'r cwricwlwm i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i gefnogi continwwm cydlynol o gynnydd o 3 i 16 oed ac mae'n  bwysig bod cynnig cwricwlwm ehangach ysgolion yn cael ei gynllunio'n briodol fel bod profiadau dysgwyr yn teimlo fel rhan barhaus o'r daith 3-16. Dylai hefyd gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddangos sgiliau a phrofiadau ehangach a sicrhau eu bod yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu am rannau gorfodol o'r cwricwlwm (gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg), nad ydynt yn arwain at gymhwyster ffurfiol o reidrwydd, ond sy'n cyfrannu, serch hynny, at ddatblygiad a llwyddiant dysgwyr a'u cynnydd yn y dyfodol.

Diben cyffredinol y canllawiau hyn yw helpu ysgolion i roi gofynion a disgwyliadau'r polisi ar waith a fydd yn sicrhau bod dysgwyr yn yr ystod oedran hon yn cael y profiadau dysgu a'r deilliannau gorau posibl, beth bynnag fo'u cefndir, a thrwy hynny

**sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.** Mae hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu rhan sylfaenol o'r Cwricwlwm i Gymru, sef bod ysgolion yn **cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd** tuag at y pedwar diben.

***Pa newidiadau y mae'r canllawiau yn eu cynnig?***

Mae'r canllawiau yn cynnig gwneud y canlynol:

**Cyflwyno Hawl i Ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru**

Bydd dysgu 14 i 16 yng Nghymru yn seiliedig ar Hawl i Ddysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'n rhaid i gynnig cwricwlwm ysgol ym mlynyddoedd 10 ac 11 gynnig cyfleoedd dysgu a phrofiadau eang a chytbwys i ddysgwyr sydd wedi'u cynllunio gan gyfeirio at bedair elfen Hawl i Ddysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Drwy gyflwyno'r Hawl i Ddysgu, bydd yn ofynnol i ysgolion drefnu amser ac adnoddau eu cwricwlwm yn seiliedig ar y pedair elfen a sicrhau bod eu holl ddysgwyr yn gallu dangos eu dysgu, eu cynnydd a'u cyflawniadau mewn perthynas â'r pedair elfen pan fyddant yn cwblhau addysg orfodol yn 16 oed. Nid yw'r elfennau yn annibynnol ar ei gilydd; bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd dysgu a phrofiadau o bob rhan o'r cwricwlwm a dylent allu defnyddio hyn i gyd wrth iddynt fyfyrio ar eu cynnydd a'u cyflawniadau, a chynllunio ar gyfer trosglwyddo ôl-16.

**Mae pob dysgwr yn unigolyn a bydd ei hawl yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, profiadau a chyflawniadau gwahanol ar draws y pedair elfen:**

- Cymwysterau Llythrennedd a Rhifedd – bydd tystiolaeth o gyrhaeddiad yn cefnogi cynnydd llwyddiannus yn y dyfodol

- Cymwysterau sy'n annog cyfleoedd dysgu eang – cynnig cyfres ehangach o gyrsiau astudio sy'n cynnwys cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, y gall dysgwyr ddewis o'u plith wrth iddynt ddechrau arbenigo, sy'n cefnogi cynnydd a llwybrau gyrfa yn y dyfodol

- Dysgu a phrofiadau ehangach – cynnig cyfleoedd dysgu eang a fydd yn ystyrlon ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ac yn darparu cyfleoedd ar draws y cwricwlwm. Ni fydd profiadau pob dysgwr yn arwain at gymhwyster ffurfiol, ac mae'r canllawiau'n trafod dysgu ehangach yn glir gan nodi ei bod yn hanfodol bod hyn yn cyfrannu at gynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben. Mae'r elfen hon yn cynnig mwy o gyfle ar gyfer astudio'n annibynnol er mwyn datblygu sgiliau dysgu, annibynnol a chyfathrebu dyfnach

- Myfyrio a chynllunio ôl-16 – amser cwricwlwm pwrpasol parhaus i ddysgwyr fyfyrio ar eu dysgu a'u cynnydd ar draws y cwricwlwm a chynllunio ar gyfer eu taith ôl-16. Bydd hyn yn golygu y gellir cefnogi dysgwyr gyda'u camau nesaf a bydd yn cynnig cyfle i ysgolion ddarparu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith sydd wedi'u teilwra'n fwy unigol

Bydd y canllawiau hefyd yn helpu ysgolion i ddeall gofynion yr Hawl i Ddysgu fel bod pob dysgwr yn gallu dangos ei ddysgu, ei gynnydd a'i gyflawniadau yn y pedair elfen, pan fydd yn cwblhau addysg orfodol.

**Sicrhau cynnig eang o gyfleoedd dysgu a phrofiadau i gefnogi llwybrau dysgwyr**

Mae'n bwysig bod ysgolion yn caniatáu i ddysgwyr wneud cynnydd priodol yn unol â'r cod cynnydd. Mae'r canllawiau yn cynnwys cyngor i ysgolion ar 'sicrhau dysgu' ar gyfer dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a chefnogi'r Hawl i Ddysgu.

**Cyfrannu at brosesau hunanwerthuso a gwella ysgolion**

Yn dilyn cyhoeddi'r Canllawiau Gwella Ysgolion ym mis Mehefin 2022, mae nifer o ddisgwyliadau ar ysgolion ac awdurdodau lleol eisoes mewn perthynas â chynnal eu proses hunanwerthuso a gwella. Mae'r canllawiau statudol yn cynnig esboniad ac eglurder pellach a fydd yn sicrhau y caiff y broses ei chyflawni'n llwyddiannus i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn benodol. Bydd yn ofynnol i ysgolion wneud y canlynol:

- Dangos bod eu cwricwlwm i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn cynnig cyfleoedd dysgu ar draws pedair elfen yr Hawl i Ddysgu
- Gwerthuso ansawdd y dysgu a gynigir i ddysgwyr unigol ym mlynyddoedd 10 ac 11 a myfyrio arno, gan ystyried yn benodol y rhai sy'n cwblhau eu haddysg ym mlwyddyn 11 o ran a ydynt wedi gwneud cynnydd priodol ar draws y pedair elfen
- Rhannu unrhyw bryderon ynghylch cynnydd dysgwyr â'u hawdurdod lleol fel y gellir rhoi'r cymorth priodol ar waith i ddysgwyr wrth iddynt adael addysg orfodol
- Sicrhau bod casgliadau unrhyw rai o'r uchod yn llywio cynlluniau gwella'r ysgol

**<u>Effaith ar ddysgwyr 14 i 16 oed / blynyddoedd 10 ac 11</u>**

Y diben cyffredinol yw rhoi'r profiadau dysgu a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir, a thrwy hynny sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion.

Nod y Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at **bedwar diben** y cwricwlwm fel eu bod yn dod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Dylai'r pedwar diben fod yn fan cychwyn ac yn ddyhead ar gyfer cynllunio cwricwlwm ysgolion a dylai pob dysgwr fod yn gwneud cynnydd ac yn datblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y dibenion hynny. Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Nid dim ond yr hyn a gaiff ei addysgu sy'n bwysig, ond sut y caiff ei addysgu ac, yn hanfodol, pam y caiff ei addysgu.

Mae'r canllawiau statudol hyn yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddatblygiad dysgwyr 14 i 16 oed/blynyddoedd 10 ac 11 tuag at y pedwar diben, ac rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau a gynigir yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp oedran hwn yng Nghymru.

Bydd y newidiadau a gynigir yn cefnogi dysgwyr yn well mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd dysgwyr yn cael cwricwlwm eang a chytbwys a fydd yn eu helpu i ffynnu ar y llwybrau ôl-16 y byddant yn eu dewis:
  - nod cyflwyno trefniadau hunanfyfyrio a chynllunio ôl-16 yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwell o ran dewisiadau dysgwyr a gyrfaoedd – bydd neilltuo amser ar gyfer hunanwerthuso yn galluogi dysgwyr i fod yn fwy gwybodus o ran eu camau nesaf a dysgu gydol oes.
  - bwriedir i'r elfen hunanfyfyrio gefnogi effeithiolrwydd dysgwyr hefyd, gyda'r nod o gynyddu dysgu effeithiol mewn cyd-destun cymdeithasol a chyd-destun sy'n gysylltiedig â gwaith. Wrth iddynt ddod yn fwyfwy effeithiol, bydd dysgwyr yn gallu ceisio cymorth priodol a nodi ffynonellau'r cymorth hwnnw yn annibynnol. Y bwriad yw y bydd hyn hefyd yn helpu dysgwyr i ofyn cwestiynau mwy soffistigedig a fydd yn hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau a hunanreoli. Mae'r holl sgiliau hyn yn hanfodol er mwyn dod yn oedolion effeithlon.
  - cyfleoedd dysgu a phrofiadau a fydd wedi'u teilwra'n fwy i ddysgwyr unigol, gyda mwy o ddewisiadau ynghylch dysgu a fydd yn briodol iddynt – dewisiadau nad yw perfformiad yr ysgol yn dylanwadu arnynt, ond dewisiadau a fydd yn cefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial.
  - Bydd cynnig cwricwlwm ehangach gydag amrywiaeth o opsiynau o ran y lefel a'r math o ddysgu yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Gall dysgwyr fod yn llai tebygol o osgoi'r ysgol, gan arwain at gyfraddau presenoldeb gwell. Gall hyn fod yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 a all fod wedi ymddieithrio o addysg yn flaenorol oherwydd lefel y galw sy'n gysylltiedig â dysgu mwy academaidd a'u dawn yn y pynciau a gynigiwyd.
  - Y bwriad yw y bydd ffocws cliriach ar yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Hawl i Ddysgu (a'r gofynion sydd gan ysgolion i adolygu), yn helpu i adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET yn well ac yn gynharach, fel y gellir rhoi gwybod i awdurdodau lleol am broblemau a rhoi'r cymorth angenrheidiol ar waith.

- Bydd gwaith asesu yn fwy ystyriol a chaiff dysgwyr unigol eu cefnogi o ddydd i ddydd er mwyn helpu i wella'r effaith ar eu llesiant meddyliol, emosiynol a chymdeithasol.

- Mae'r canllawiau'n nodi'n bendant nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi camau i gyflwyno cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau i ddysgwyr hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 9. Mae risg y bydd cyflwyno cyrsiau astudio ar gyfer TGAU ym mlwyddyn 9 yn rhoi pwysau diangen ar rai dysgwyr, ond mae risg hefyd y bydd yn cwtogi cynnig cwricwlwm dysgwr a gall atal dysgwyr mewn blynyddoedd o dan flwyddyn 10 rhag manteisio ar y cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth. Gall cwtogi cwricwlwm yn rhy

gynnar effeithio ar ddewis dysgwyr ac effeithio ar lwybrau yn y dyfodol yn y pen draw.

- Mae'r canllawiau yn annog ysgolion i gydweithio ag ysgolion a cholegau eraill wrth ddatblygu eu cynnig cwricwlwm. Dylai cydweithio gefnogi addysgeg well a chyfrannu ati, gan godi safonau addysgu a dysgu, er mwyn cefnogi pob dysgwr yn y ffordd orau.

## Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'n hanes o hyrwyddo hawliau plant a gweithio i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Ein huchelgais yw sicrhau bod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael eu hyrwyddo a'u parchu er mwyn eu galluogi i wireddu eu potensial. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau y rhoddwyd sylw dyledus i CCUHP.

### Addysg hawliau dynol

Mae addysg hawliau dynol yn un o themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r gofyniad i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â Rhan 1 o CCUHP a CCUHPA ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu yn rhan amlwg o **Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** (adran 64). Mae hyn yn golygu bod angen i bob ymarferydd sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â hawliau dynol plant o dan ddau o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)

Mae addysg hawliau dynol yn golygu bod oedolion, plant a phobl ifanc yn dysgu AM hawliau dynol; yn dysgu DRWY hawliau dynol; ac yn dysgu AR GYFER hawliau dynol. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'u hawliau dynol ac yn eu deall, eu bod yn profi eu hawliau dynol yn eu haddysg a'u bod yn cael eu grymuso â'r sgiliau i eirioli o blaid eu hawliau eu hunain a hawliau eraill.

Mae arweinwyr ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â CCUHP mewn ysgolion. Mae datblygu dealltwriaeth o hawliau yn rhan o Feysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac Iechyd a Lles, yn ogystal ag elfennau gorfodol eraill o'r cwricwlwm i bobl ifanc 14 i 16 oed, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 yn cefnogi cyfleoedd i ddysgu am hawliau dynol ymhellach drwy elfennau *Cymwysterau i annog ehangder* a *Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm*.

Mae gofynion ehangach y cwricwlwm yn nodi bod angen i ddysgwyr gael profiad ystyrlon o'u hawliau cyfranogol yng nghynllun y cwricwlwm. Mae fframwaith cyfreithiol a pholisi cadarn ar waith yng Nghymru i sicrhau cyfranogiad disgyblion mewn ysgolion ac mae cyngor ymarferol i addysgwyr yng Nghymru wedi cael ei

gyhoeddi ar Hwb sy'n cynnwys astudiaethau achos ar gyfer cyfranogiad effeithiol dysgwyr yng nghynllun y cwricwlwm a phrosesau hunanwerthuso ysgolion.

Mae Asesiad llawn o effaith y canllawiau i ddysgwyr 14 i 16 ar gydraddoldeb wedi cael ei lunio fel Atodiad ar wahân, sy'n cynnwys cofnod manwl o effeithiau i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig.

Mae'n bwysig nodi bod ystod o asesiadau effaith wedi cael eu cyhoeddi i baratoi ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Gellir cael tystiolaeth bellach mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn asesiad effaith integredig y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.

Bydd y canllawiau arfaethedig i ddysgwyr 14 i 16 yn rhan o Fframwaith Canllawiau Statudol y Cwricwlwm i Gymru a bwriedir iddynt gefnogi'r gwaith o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ar gyfer dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae'r canllawiau yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru a gellir defnyddio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru fel tystiolaeth ategol bellach ar gyfer y canllawiau hyn.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata ansoddol a meintiol o ystod o ffynonellau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r polisi a amlinellir yn y canllawiau 14 i 16. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob rhan o'r Cyfarwyddiaethau Addysg a Sgiliau i ystyried effaith y polisi ar feysydd polisi eraill, gan gadw hawliau'r plentyn a'r effeithiau ar hyn mewn cof.

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i defnyddio i ddatblygu'r polisi hwn yn cynnwys yr adolygiad gan **Dr Hefin David AS, sef Pontio i Fyd Gwaith**, a'r **Adolygiad a arweiniwyd gan Sharron Lusher MBE o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru** . Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy dri cham y Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc. Mae Cam 1 yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023, yn dwyn ynghyd ganfyddiadau ansoddol a meintiol o sgyrsiau ag ystod o bobl ifanc 16 - 14 oed. Mae Cam 2 a Cham 3 yr adroddiad, Cyflawni ar gyfer pobl ifanc a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2024, yn ymchwilio'n ddyfnach i fywydau dysgwyr ac yn ystyried effaith yr argyfwng costau byw. Mae canfyddiadau'r adroddiad diweddaraf a oedd yn canolbwyntio ar y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael gafael ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn cadarnhau ymhellach fod ein polisi ynghylch dysgwyr 14 i 16 oed yn gadarn.

Wrth ddatblygu'r polisi, gwnaethom hefyd gomisiynu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ymgymryd ag ymchwil annibynnol drwy gynnal adolygiad cymharol o systemau addysg rhyngwladol i ddysgwyr 14 i 19 oed a'u heffaith ar gamau pontio dysgwyr. Nododd tystiolaeth o'r ymchwil hon fod arfer dda mewn perthynas â chyngor ar yrfaoedd a'r byd gwaith a chefnogi pontio yn aml yn helpu dysgwyr i gymryd agwedd fwyfwy annibynnol at ddeall eu cryfderau, y meysydd i'w gwella a'u nodau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr OECD – What shapes upper secondary pathways and transitions? ar 15 Chwefror 2024. Mae'r adroddiad yn gyson â chanfyddiadau ac argymhellion adolygiad Hefin David, ac â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc. Mae'n dangos yn glir fod Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â

Byd Gwaith a chymorth ar gyfer pontio ôl-16, yn agweddau pwysig ar gynnydd 14-19 i bob dysgwr. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn arbennig o ddefnyddiol o ran ailddatgan cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2024.

Fel rhan o'r broses cyn ymgynghori gadarn, gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol. Rydym wedi creu bwrdd dysgu 14 i 16, a gynrychiolir gan bob rhanddeiliad allweddol sydd â diddordeb mewn dysgu 14 i 16 yng Nghymru. Ymgynghorwyd ag aelodau'r bwrdd ar fersiwn ddrafft gynnar o'r ddogfen ganllaw ac ystyriwyd eu safbwyntiau, cyn lansio'r ymgynghoriad. Mae'r bwrdd dysgu wedi cael canfyddiadau cynnar yr ymgynghoriad a bydd yn parhau i gynghori Llywodraeth Cymru wrth inni symud tuag at gyhoeddi'r canllawiau terfynol a pharatoi i ysgolion eu rhoi ar waith.

Mae'r holl waith ymgysylltu hwn, ynghyd â'r dystiolaeth a gasglwyd, wedi ein helpu i ddeall y bwlch sgiliau sy'n atal dysgwyr rhag ffynnu pan fyddant yn gadael addysg orfodol.

Cyfarfu swyddogion â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ar 18 Ionawr 2024, lle cyflwynwyd y polisi, ochr yn ochr â drafft gwaith o'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn trafod bwriadau'r polisi a'r effaith ar ddysgwyr. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y Grŵp ac roedd cynrychiolwyr yn croesawu ffocws cyffredinol y polisi ar y dysgwr ac, yn arbennig, y ffocws ar hunanfyfyrio i ddysgwyr sy'n ymgorffori'r hawl i'r plentyn gael ei glywed. Cynigiodd rhai aelodau awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwella'r canllawiau drafft ynghyd ag ychwanegiadau at yr Asesiad terfynol hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r canllawiau statudol drafft i ddysgwyr 14 i 16 rhwng 28 Chwefror 2024 ac 8 Mai 2024. Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â dysgwyr a rhieni a gofalwyr hefyd.

Mae'r broses ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Miller Research wedi cynnwys gwaith ymgysylltu helaeth â phlant a phobl ifanc. Un o bwyntiau ffocws allweddol cynnig Miller am y contract hwn oedd datblygu arolwg i ddysgwyr, ac er ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau caffael, roedd hyn yn ffactor pwysig yn ein penderfyniad i benodi Miller er mwyn sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei gynrychioli a'i glywed.

Cafodd adnodd hunanlenwi i ddysgwyr, a oedd yn cynnwys esboniad syml o'r polisi a chwestiynau arolwg addas i ddysgwyr, ei ddatblygu gan Miller a'i ddosbarthu drwy Plant yng Nghymru.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Ymatebodd 340 o blant a phobl ifanc o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 i'r arolwg i ddysgwyr. O blith y rhai a ymatebodd, nododd cyfran uwch o ddysgwyr hŷn eu bod yn deall y polisi a'r Hawl i Ddysgu.

Nododd bron hanner yr ymatebwyr nad oeddent o'r farn bod unrhyw beth ar goll o gynnig y cwricwlwm, ond roedd yr ymatebion testun rhydd gan ddysgwyr yn arbennig o ddiddorol o ran deall sut mae pobl ifanc yn teimlo am amrywiaeth o faterion. Er bod rhai o'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn, cafwyd nifer o sylwadau diddorol ynglŷn â'r polisi dysgu 14 i 16 sydd wedi cael eu hystyried cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol. Dyma rai enghreifftiau:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo er y gallai'r cynnig fod yn fwy dryslyd i rai dysgwyr ag ADY neu nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, awgrymodd eraill y gallai addysg sydd wedi'i theilwra'n fwy i'w diddordebau a'u cryfderau personol wneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael eu cydnabod yn fwy ac y byddent yn cael budd o gymorth ychwanegol.
- Nododd rhai ymatebwyr nad ydy rhai dysgwyr yn dymuno astudio Cymraeg ac y byddai'n well ganddynt ganolbwyntio ar bynciau eraill.
- Roedd rhai dysgwyr yn teimlo na fyddai'r cwricwlwm newydd o reidrwydd yn cynnig yr un cyfleoedd i ddysgwyr sy'n cyflawni ar lefel uwch o gymharu â rhannau eraill o'r DU, gyda chanfyddiad bod Cymru yn canolbwyntio mwy ar greu gweithlu ymarferol yn hytrach nag un academaidd.

Yn ogystal â'r arolwg i ddysgwyr, cynhaliodd Miller ddigwyddiad wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc hefyd, gan weithio gyda Cymwysterau Cymru a'i Grŵp o Ddysgwyr. Roedd dysgwyr yn y digwyddiad hwn yn teimlo'n arbennig o hyderus eu bod yn deall y cynnig 14 i 16 (o ran cymwysterau a'r cwricwlwm) ond gwnaethant gydnabod y gall hyn fod oherwydd gwybodaeth gefndir a gwaith blaenorol gyda Cymwysterau Cymru.

Gwnaethom hefyd lunio fersiwn o'r ddogfen ymgynghori i rieni/gofalwyr ac ymgysylltodd Miller â ‘Parentkind’ er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei dosbarthu. Gwnaethant gynnal dau grŵp ffocws gyda rhieni a gofalwyr. Roedd dros hanner yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ffurfiol gan rieni/gofalwyr.

Roedd y pryderon a fynegwyd gan blant a phobl ifanc yn debyg iawn i rai o'r rhai a ddaeth i'r amlwg drwy'r broses ymgynghori ffurfiol. Cafwyd 103 o ymatebion i gyd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt gan ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, undebau athrawon a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yn ogystal â'r themâu uchod, mynegwyd nifer o bryderon ynghylch materion megis Dysgu Proffesiynol, adnoddau ysgolion a llwyth gwaith. Fel y nodwyd uchod, mae'r holl faterion hyn wedi cael eu hystyried cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol.

Y diben cyffredinol yw rhoi'r profiadau dysgu a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir, a thrwy hynny sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion. Caiff manylion ynghylch effaith gadarnhaol ganfyddedig y polisi i ddysgwyr 14 i 16 oed yn y Cwricwlwm i Gymru eu hamlinellu yn amcanion y polisi o dan Adran 1 uchod. Rydym yn cydnabod y gall fod angen i rai ysgolion wneud mwy i gefnogi eu dysgwyr yn y ffordd hon (ac mae swyddogion wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymarferwyr ac undebau i drafod hyn), ond mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu cynnig eang ac felly bydd y goblygiadau o ran llwyth gwaith yn amrywio o ysgol i ysgol. Yn ogystal, mae'n annhebygol y bydd effaith negyddol i ddysgwyr. Fel gydag unrhyw bolisi newydd/diwygiedig, bydd angen rhywfaint o amser sefydlu er mwyn i ddysgwyr ddeall

yr Hawl i Ddysgu ond, yn y pen draw, rydym yn hyderus y bydd y canlyniadau terfynol yn gadarnhaol i ddysgwyr.

**Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol?**

Rydym o'r farn bod ein cynnig yn cyfrannu at yr erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 – *Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.* | X | | Bydd mwy o gefnogaeth i ddysgu 14-16 mewn ysgolion, gyda chynnig cwricwlwm mwy eang a chytbwys a chyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n unigol, e.e. Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gadael yr ysgol gyda'r cymysgedd cywir o wybodaeth, sgiliau a galluoedd i symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth. |
| Erthygl 3 – *Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.* | X | | Fel uchod ac yn ogystal â hynny, bydd dysgwyr unigol yn cael mynediad at ystod ehangach o gymwysterau/profiadau dysgu ehangach. |
| Erthygl 12 – *Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.* | X | | Bydd dysgwyr yn cael cymorth mwy unigoledig gyda mwy o gyfleoedd i feddwl am eu dysgu, Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith a'u taith ôl-16, a thrafod hyn.<br><br>Gall dysgwyr 14 i 16 ddylanwadu ar y ffordd y caiff y polisi hwn ei gyflawni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gan fod hawl ganddynt i gyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm.<br><br>Mae gan ddysgwyr hawl i roi adborth ar yr addysg y maent yn ei chael hefyd drwy broses hunanwerthuso eu hysgol. Mae'r Canllawiau Gwella Ysgolion yn nodi'n bendant y 'bydd y gymuned ysgol gyfan, hynny yw dysgwyr, ymarferwyr, staff cymorth, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr, yn cyfrannu at y broses'.<br><br>Yn unol â'r rheoliadau, wrth ddiwygio Cynllun Datblygu'r Ysgol, dylid ymgynghori â phob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol.<br><br>Mae dysgwyr 14 i 16 oed (a phob dysgwr) yn rhan o broses arolygu Estyn – mae Estyn wedi cyhoeddi adolygiadau thematig a chanllawiau arferion da ynghylch cyfranogiad disgyblion hefyd.<br><br>Mae potensial i wella cyfleoedd i lais y dysgwr gael ei glywed wrth inni ddatblygu'r ecosystem wybodaeth i ysgolion ymhellach. |
| *Erthygl 14 – Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.* | X | | Er bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen orfodol o gynnig y cwricwlwm 14-16 o hyd, mae'r canllawiau yn atgoffa ysgolion o'r rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â hyn. Mae'n rhaid i ysgolion barhau i ddarparu cyfleoedd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 a'r canllawiau ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 23 – *Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.* | X | | Mae'r canllawiau yn gymwys i Ysgolion Arbennig lle y bo'n briodol. O ystyried anghenion dysgwyr yn y lleoliadau hyn, a all fod yn gymhleth weithiau, canolfannau unigol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd briodol o gymhwyso'r egwyddorion mewn perthynas â dysgwyr unigol. Mae'r canllawiau yn cynnig digon o hyblygrwydd fel y gellir gwneud penderfyniadau er lles pennaf y dysgwr.<br><br>Bydd dysgwyr yn cael cymorth gwell, cryfach a mwy unigoledig, gyda chyfleoedd dysgu eang a chytbwys. Mae hyn yn cynnwys mwy o gyfleoedd i feddwl am eu dysgu, Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith a'u taith ôl-16, a thrafod hyn. |
| Erthygl 28 – *Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.* | x | | Mae'r canllawiau yn ceisio gwella ansawdd ac ehangder cyfleoedd dysgu y mae dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn eu cael.<br><br>Bydd elfen o'r Hawl i Ddysgu – 'Cymwysterau i annog ehangder' – yn annog ymddygiad cadarnhaol. |
| Erthygl 29 – *Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd* | x | | Wrth i ddysgwyr droi'n 14 oed, maent yn dechrau arbenigo mewn rhai agweddau ar ddysgu. Mae'r polisi hwn yn cydnabod, er mai cwrs astudio sy'n arwain at gymhwyster fydd hyn i rai, mae'n bosibl y bydd rhai eraill yn gwneud cynnydd drwy ddysgu a phrofiadau ehangach. Fel rhan o'r dysgu ehangach, bydd yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod pob dysgwr, ni waeth pa lwybr astudio y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mae'n ddewis, yn sicrhau dysgu ym mhob elfen orfodol o'r cwricwlwm, sy'n cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth i fyfyrio ar eu cryfderau a meysydd i'w gwella fel unigolion, a all gynnwys myfyrio ar agweddau ar eu bywydau y tu allan i'r ysgol, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu cyflawniadau o'r tu allan i'r ysgol. |
| Erthygl 29 – *Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd.* | x | | Bydd cynnig cwricwlwm ehangach yn cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.<br><br>Yn ogystal â'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant dysgwyr, caiff amser ei neilltuo yn y cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith, a chaiff cymorth ei gynnig ar gyfer iechyd meddwl, llesiant emosiynol a chydberthnasau, ynghyd â chyfleoedd i ddysgu am ymddygiadau cadarnhaol a'u datblygu. |

## 4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Caiff y dadansoddiad o'r effaith hon ei ddefnyddio i lywio ein cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gymeradwyo gan ein Dirprwy Gyfarwyddwr, Georgina Haarhoff, ac i lywio'r penderfyniad ynghylch cyhoeddi'r canllawiau terfynol.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Yn dilyn penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet ar y canllawiau terfynol, caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei anfon i'r blwch negeseuon e-bost perthnasol a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd ag adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig.

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Byddwn yn gweithio gyda Plant yng Nghymru a Cymwysterau Cymru i roi gwybod i'r dysgwyr hynny sydd wedi ymgysylltu â'r ymgynghoriad am y canlyniad. Mae Miller Research eisoes wedi rhoi trosolwg o'r canfyddiadau ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben a chyflwynwyd y canlyniadau allweddol (gan gynnwys y rhai o'r arolwg i ddysgwyr) i'r Bwrdd Dysgu ar 13 Mai. Rydym wedi cytuno yr ymgymerir ag amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu wedi'u targedu at rieni/gofalwyr a dysgwyr ar ôl i'r canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi, er mwyn sicrhau bod eglurder pendant o ran disgwyliadau'r polisi i'r rhanddeiliaid hyn.

## 7. Monitro ac Adolygu

Byddwn yn ailystyried yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar ôl i'r canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi er mwyn ystyried a yw'r effeithiau a nodwyd wedi dwyn ffrwyth ac a fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Os bydd unrhyw gynigion i ddiwygio'r polisi dysgu 14 i 16, caiff yr Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.